**Diweddariadau o WCVA**

23 Gorffennaf 2018

Helo a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Fe fyddwn yn ailagor bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Gwerth y bwrsari yw £2,500 ac fe'i rhoddir yn flynyddol i rywun mewn rôl arwain o fewn fudiad trydydd sector yng Nghymru. Anogir ymgeiswyr i feddwl am syniadau diddorol i gefnogi eu datblygiad eu hunain fel arweinydd entrepreneuraidd - er enghraifft, enillydd y llynedd oedd Steve Brooks o Sustrans Cymru, ac fe ddefnyddiodd ef ran o'r arian i ymweld â Copenhagen i ddysgu sut y llwyddwyd i droi eu dinas yn hafan i feicwyr. Eich dychymyg yw'r unig gyfyngiad!

Mae cyfnod ymgeisio rownd gyntaf Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cau ddydd Iau yma. Mae prif grantiau gwerth rhwng £5,000 a £49,999 ar gael. Mae'r cynllun grant yn gyfle gwych i ddarparu buddion i gymunedau drwy arian grant gan hefyd gefnogi bywyd gwyllt lleol, cynefinoedd naturiol, ac ecosystemau gweithredol iach. Rydym yn awyddus iawn i glywed gan brosiectau sy'n meddwl y byd o'u cymuned ac sy'n deall beth sydd ei angen ar bobl leol i fod yn iachach, yn fwy llewyrchus, neu i gynyddu cydlyniant cymunedol. Felly peidiwch â cholli'ch cyfle ac ewch ati i ymgeisio nawr.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi wythnos nesaf!

**Gwirfoddoli**

**Cydnabod gwirfoddolwyr ifanc yng Nghymru**

Mae gweledigaeth WCVA ar gyfer dyfodol lle mae’r trydydd sector a gwirfoddoli yn ffynnu ledled Cymru, gan wella llesiant i bawb yn cynnwys ymrwymiad i gydnabod gwirfoddolwyr ifanc a hyrwyddo arfer da i alluogi mudiadau i gynnwys pobl ifanc yn effeithiol mewn cyfleoedd gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol.

**Cyffredinol WCVA**

**Bwrsari Arweinyddiaeth Walter Dickie yn ailagor i geisiadau ym mis Awst**

Bydd WCVA yn ail-lansio’r bwrsari arweinyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ar Awst 7.

**Cyswllt rhwng y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus nawr yn fyw**

Mae gwybodaeth am fudiadau a gwasanaethau trydydd sector perthnasol yn awr yn cael ei rhannu rhwng infoengine, cronfa ddata trydydd sector, a Dewis Cymru, cyfeiriadur sector cyhoeddus.

**Cyffredinol trydydd sector**
**Yn cyflwyno eich tîm Allgymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ydych chi erioed wedi meddwl sut y gallwch gael mwy o lais mewn penderfyniadau a wnaed yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Cyllid**
**Cyfle olaf i ymgeisio yn y rownd hon o Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**

Mae prif grantiau rhwng £5,000 a £49,000 ar gael, mae'r rownd gyntaf cau 26 Gorffennaf 2018.

**Hyfforddiant a digwyddiadau**
**Denu gwirfoddolwyr yr unfed ganrif ar hugain i greu newid**

Cyfle i ddysgu sut i ddenu gwirfoddolwyr yr unfed ganrif ar hugain, dal gafael arnynt ac ennyn eu diddordeb yn effeithiol i greu newid go iawn
**Sut i baratoi at eich asesiad Nod Ansawdd PQASSO**

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i symud o gwblhau proses hunanasesu PQASSO yn eich mudiad i gyflawni Nod Ansawdd PQASSO.

**Polisi a gwleidyddiaeth**
**Ymgynghoriadau'r wythnos hon**

Cod Moeseg i'r trydydd sector.
**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 – cyfle i ddweud eich dweud**

Hoffem glywed lleisiau'r sector i gyfrannu at ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Gyllideb ddrafft.
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r (Cymru) Dyfodol - Adnoddau Trydydd Sector**

Nod y Ddeddf hon yw creu dyfodol cynaliadwy, sicr i Gymru. Ond sut yn union y bydd yn gwneud hynny, a beth – os unrhyw beth – yw'ch rhwymedigaethau?
**Ymchwiliad i edrych ar gymorth i ofalwyr yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am edrych ar y cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i ofalwyr.

## **Tryloywder a llais i ddefnyddwyr gwasanaethau am fod wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu blaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**This week's updates from WCVA**

23 July 2018

Hello, and welcome to this week's newsletter.

We're going to be reopening the Walter Dickie Leadership bursary at this year's National Eisteddfod. The bursary is worth £2,500 and is awarded annually to someone in a leadership role within a third sector organisation in Wales. Applicants are encouraged to come up with interesting ideas to support their own development as an entrepreneurial leader - for example, Steve Brooks of Sustrans Cymru won last year, and used some of the money to visit Copenhagen and learn how they turned their city into a haven for cyclists. The only limit is your imagination!

Applications to the first round of the Landfill Disposals Tax Communities Scheme close this Thursday. Main grants between £5,000 and £49,999 are available. The scheme is a great opportunity to provide community benefits through grant funding whilst also supporting local wildlife, natural habitats, and healthy functioning ecosystems. We want to hear from projects who care about their community and understand what local people need to become healthier, more prosperous, or increase community cohesion. Make sure you don't miss out and apply now.

Thanks for reading, we'll see you next week!

## Volunteering

### Youth volunteering recognition in Wales

Part of WCVA’s vision for a future where the third sector and volunteering thrive across Wales, improving wellbeing for all includes a commitment to recognising youth volunteering and promoting good practice to enable organisations to effectively involve young people in volunteering and social action.

## WCVA general

### The Walter Dickie Leadership Bursary reopening for applications this August

WCVA will be relaunching the leadership bursary at the National Eisteddfod in Cardiff on August 7.

### Link between third sector and public services now live

Information about relevant third sector organisations and services is now being shared between third sector database infoengine and public-sector directory Dewis Cymru

## Third sector general

**Introducing your National Assembly for Wales Outreach team**

Ever wondered how you can have more of a say in decisions made at the National Assembly for Wales?

## Funding

**Last chance to apply for this round of Landfill Disposals Tax Communities Scheme**

Main grants between £5,000 and £49,999 are available, the first round closes 26 July 2018.

## Training and events

**Engaging with 21st century volunteers to make change happen**

Attract and retain 21st century volunteers and engage effectively with your volunteers to affect real change

**How to prepare for a PQASSO Quality Mark assessment**

This course will help you to move from completing the PQASSO self-assessment process in your organisation to achieving the PQASSO Quality Mark.

## Policy and politics

**This week's consultations**

A Code of Ethics for the third sector.

**Welsh Government draft Budget 2019-20 – have your say**

We want sector voices to input into our draft Budget consultation response.

**The Well-being of Future Generations (Wales) Act - Third Sector Resources**

This Act aims to create a secure, sustainable future for Wales. But how exactly will it do that, and what – if any - are your obligations?

**Enquiry to look at support for carers in Wales**

The Health, Social Care and Sport Committee is to look at the support and information available for carers.

## Transparency and a voice for service users to be key in health and social care

The First Minister has set out Welsh Government's legislative priorities for the coming year.